

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

HSS(2)-06-07(p.11)

Dyddiad: Dydd Mercher 14 Mawrth 2007
Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl: Diweddariad ar yr incwm sy'n dod i law Ymddiriedolaethau'r GIG oddi wrth 'Patientline'

Diben

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am bapur i nodi manylion yr incwm a ddaw i law Ymddiriedolaethau'r GIG gan 'Patientline'.

Y Cefndir

Gofynnwyd i Ymddiriedolaethau'r GIG roi manylion unrhyw wasanaethau a ddarperir gan 'Patientline' o fewn eu hystad ac i roi manylion unrhyw incwm sy'n dod i law. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at argaeledd cyfredol gwasanaethau 'Patientline' yn Ymddiriedolaethau'r GIG a'r incwm sy'n dod i law.

Bro Morgannwg	<p>Mae'r cwmni Menter Cyllid Preifat sy'n gweithredu ystad Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi gosod system adloniant i gleifion o'r enw 'Wandsworth', sy'n darparu gwasanaethau teledu a ffôn rth ochr y gwely. Cafwyd bod y system hon yn rhy ddrud i'r cwmni ei chynnal ac felly penderfynwyd cael gwared ar y system hon. Penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ysgwyddo'r dyletswydd o weithredu'r system tra pery'n ddefnyddiol, er mwyn parhau i gynnig gwasanaeth i gleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau cost y galwadau ffôn eu bod yn costio'r un faint ? galwadau ffôn rferol. O safbwynt incwm, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cymorthdalur system am na chynhyrchir ddigon o incwm i dalu'r costau sydd ar yr Ymddiriedolaeth o safbwynt llogi'r offer. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r sefyllfa yn unol ? chanfyddiadau ymholiad Ofcom ac yn penderfynu p'un a ddylid cadw'r system neu gael gwared arni.</p> <p>Dim gosodiadau eraill o fewn yr Ymddiriedolaeth.</p>

Caerdydd a'r Fro	<p>Wedi'u hymrwymo i Patientline ers nifer o flynyddoedd ac yn ddiweddar, dyfarnwyd contract 'newydd' a fydd yn golygu bod system Patientline yn cael ei gosod yn Ysbyty Llandoche, a bod gwasanaeth presennol Patientline yn Ysbyty Prifysgol Cymru yn cael ei wella.</p> <p>Yn ystod 2005/06, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth incwm gwerth ?1,193.67 mewn breindaliadau oddi wrth Patientline.</p>
Sir Gaerfyrddin	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Ceredigion a Chanolbarth Cymru	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Conwy a Sir Ddinbych	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Gwent	<p>Gwasanaeth Patientline wrth ochr y gwely, yn darparu teledu, ff? radio yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall.</p> <p>Yr incwm a gafodd yr Ymddiriedolaeth oddi wrth Patientline: ?0.00</p>
Y Gogledd-ddwyrain	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Gogledd Morgannwg	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Y Gogledd-orllewin	<p>Mae system Patientline wrth ymyl pob gwely yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno. Mae setiau teledu wrth ochr gwelyau yn Ward Gofal Lliniarol Ysbyty Bryn Seiont.</p> <p>Yr incwm a gafodd yr Ymddiriedolaeth oddi wrth Patientline: ?0.00</p>
Sir Benfro a Derwen	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Powys	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Pontypridd a Rhondda	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu unrhyw wasanaethau o'r fath i gleifion. Fodd bynnag, maent yn ystyried Patientline ond mae'r syniad yn cael ei ohirio ar hyn o bryd
Abertawe	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion
Felindre	Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau Patientline i gleifion

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn sgil y sesiwn briffio hon. Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol wedi gweld cynnwys y sesiwn briffio hon ac wedi'i nodi. (NG 3058).

Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r incwm a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaethau'r GIG oddi wrth 'Patientline'.

Brian Gibbons AC
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwynt Cyswllt: Gordon McKenzie, yr Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth, ff?29 2082 6649